# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2317 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Date | 18/11/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stephen Thomas (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Tanya Evans (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Alyson Hoskins (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Emma Bennett (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5467 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5468 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier, K. Rowson a T. Sharrem.<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Plant |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5469 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Datganodd y Cynghorydd Wayne Hodgins fuddiant yn y cyfarfod gan y gall rhai o'i gleientiaid hefyd fod yn ddefnyddwyr gwasanaethau y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5470 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5616 |
| Item Title | Dalen Weithredu – 7 Hydref 2021 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen weithredu. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5611 |
| Item Title | Diweddariad ar y Bartneriaeth Ranbarthol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i hysbysu Aelodau am waith a phenderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dros y 6 mis diwethaf, a ddatblygwyd dan gyfarwyddyd statudol Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ers yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol ar 22 Ebrill 2021.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo ac esboniodd mai corff ymgynghori yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac y disgwylir iddo roi cyfeiriad ar gyfer unrhyw feysydd o weithio integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. |

Mewn ymateb i gwestiwn Aelod am ddatblygiad cartref preswyl i blant yn Fferm Windmill, Casnewydd, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol y caiff cyllid ar gyfer y cartref breswyl i blant ei ddarparu gan gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig ynghyd â ffrwd cyllid refeniw y Gronfa i ddarparu'r model integredig arfaethedig ar draws Gwent. Dywedodd Aelod ei bod yn dda nodi mai'r nod hirdymor yw cael gofal yn nes gartref.

Holodd Aelod am flociadau mewn ysbytai a chododd bryderon fod pobl wedi marw oherwydd iddynt fethu cael mynediad i'r triniaeth a'r gofal roeddent eu hangen. Yng nghyswllt y gwasanaeth iechyd ac ambiwlans, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod ganddynt yn awr 40 o staff milwrol ychwanegol ar draws De Cymru i yrru'r ambiwlansau, sy'n rhyddhau parafeddygon ychwanegol. Gweithredwyd hyn tua 3-4 wythnos yn ôl a gobeithir y byddai'n cael effaith ar fedru mynychu mwy o ddigwyddiadau. Dros yr 8-9 wythnos ddiwethaf buont yn edrych ar fesurau i wella'r sefyllfa ac wedi gweithio gyda WAST parthed gweithwyr cymdeithasol yn eu canolfan alw i roi cyngor os oes angen i berson fynd i ysbyty neu gael eu cefnogi gartref gyda darpariaeth gofal yn y cartref.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion sicrwydd i Aelodau ar yr hyn a wneir o safbwynt gofal cymdeithasol i sicrhau y gallent ryddhau cynifer o gleifion ag sydd modd yn ddiogel o'r ysbyty. Maent yn cwrdd yn rheolaidd gyda uwch reolwyr yn y Bwrdd Iechyd ac yn cynnal trafodaethau i roi sylw ychwanegol i unrhyw glaf a gafodd eu hatal rhag cael eu rhyddhau o ysbyty i edrych ar ddatrysiadau. Maent wedi cynyddu capasiti i gynnal asesiadau drwy gynnig goramser ychwanegol, gwaith penwythnos a gyda'r nos i staff gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

Cododd Aelod bryderon am brinder staff yn Ysbyty'r Faenor. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol iddo ofyn am Sesiwn Wybodaeth i Aelodau gyda'r Bwrdd Iechyd a fyddai'n rhoi cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau addas. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi cytuno cynnal sesiwn yn ystod mis Chwefror 2022 ar ôl i bwysau'r gaeaf lacio.

Yng nghyswllt recriwtio gweithwyr Gofal Cymdeithasol, holodd Aelod os yw strwythur cyflogau'r Cyngor yn debyg i awdurdodau eraill. Atebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y strwythur tâl yn debyg yn gyffredinol, fodd bynnag mae rhai swyddi ychydig yn wahanol yng nghyswllt darparu gwasanaethau ar draws ardal Gwent. Mae recriwtio yn broblem genedlaethol gyda staff gofal cymdeithasol yn cael eu talu am y cyflog byw gwirioneddol o £9.50 yr awr i ofalu am y bobl fwyaf bregus yn y gymuned. Gallai pobl ennill mwy o gyflog yn gweithio yn y sectorau manwerthu neu letygarwch gyda llai o gyfrifoldeb.

Cytunodd y Cadeirydd gyda sylwadau'r Cyfarwyddwr a theimlai y dylid wneud mwy ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ar gyflog isel.

Dywedodd Aelod fod staff wedi gweithio'n galed tu hwnt drwy gydol y

pandemig a bod angen i'r Awdurdod fod yn ymwybodol o'u lles yn yr hirdymor. Teimlai yn y cyfnod digynsail hwn fod angen i'r Awdurdod wneud popeth a fedrai i liniaru prinder staff ac roedd yn falch nodi fod y Gyfarwyddiaeth yn ystyried datblygu nifer o gynlluniau i geisio lliniaru rhai o'r pwysau yn y system.

Yng nghyswllt lles a goramser, staff, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion sicrwydd i Aelodau fod nifer o weithwyr rhan-amser a fu'n fodlon cymryd contractau llawn-amser ar gyfer cyfnod y gaeaf, yn neilltuol dros gyfnod y Nadolig ac oedd wedi cael gwarant o waith llawn-amser tan fis Mawrth 2022. Roedd hyn wedi helpu gyda chynaliadwyedd staff a hefyd wedi bod yn gymhelliant i'r staff hynny oedd eisiau cael mwy o waith.

Yng nghyswllt prinder staff, gofynnodd Aelod am eglurdeb ar ganllawiau Llywodraeth Cymru am hunanynysu. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod llawer o staff, yn arbennig ar y rheng flaen, yn gweithio gyda phobl fregus ac na chaniateid iddynt wneud y gwaith hwnnw os oedd ganddynt symptomau Covid 19 neu'n byw gyda rhywun oedd â symptomau. Medrid eu hailgyfeirio i weithio o fewn y swyddfa ond nad oedd hynny'n bosibl bob amser ac mewn rhai amgylchiadau y bu'n rhaid i staff aros i ffwrdd o'r gwaith nes bod y cyfnod ynysu 10 diwrnod wedi mynd heibio.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yr anfonir canllawiau newydd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n benodol at staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chartrefi Gofal yn neilltuol at Aelodau er gwybodaeth.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at baragraffau 2.20 a 2.21 yr adroddiad yng nghyswllt edrych ar gyfres o ymyriadau tymor byr i liniaru pwysau uniongyrchol ac ail-gynllunio yn y tymor hirach sut y gall y system weithio'n fwy effeithlon i ostwng pwysau cylchol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r ddau fater yn uchel ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol lle byddent yn ystyried opsiynau. Yr anhawster fyddai sut i gynyddu cyflogau a theimlai fod angen gwneud hyn ar sail genedlaethol. Gallai gael effaith enfawr ar awdurdodau lleol pe byddid yn ei wneud ar sail leol neu ranbarthol.

Yng nghyswllt recriwtio, dywedodd Aelod y bu nifer o hysbysebion a chyfleoedd swyddi mewn misoedd diweddar a holodd os bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi mewn Gofal Cymdeithasol. Atebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mai ychydig o gynnydd sydd, yn anffodus. Esboniodd fod yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd a'r sector preifat i gyd yn recriwtio o blith yr un grŵp o bobl a fedrai ddewis y cyflogwr sy'n talu orau a dyma'r rheswm pam y dylai'r mater gael ei drin yn genedlaethol.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y Pwyllgor wedi craffu ar yr adroddiad ac y dylid cefnogi penderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

| | |
|---|---|
| | |

| Item ID | 5612 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Blynyddol 2020/21 Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a gyflwynwyd i roi adroddiad ar berfformiad Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru (SEWAS) a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) ar gyfer 2020/21.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru am yr adroddiad a thynnodd sylw at y tri phrif faes o fewn yr adroddiad:-<br>• Recriwtio<br>• Lleoli Plant<br>• Cymorth Mabwysiadu<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am Gwaith Taith Bywyd, esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth (SEWAS) bod pob plentyn a fabwysiedir yn cael Gwaith Tai Bywyd. Mae'n dod mewn gwahanol ddulliau ac aiff gyda nhw fel y byddai mabwysiadwyr yn cael dealltwriaeth o hanes y plentyn, mewn ffordd sy'n canoli ar y plentyn, ac mae'n cynnwys yr holl wybodaeth am deulu geni y plentyn.<br><br>Yng nghyswllt recriwtio ar gyfer lleoliadau holodd Aelod os y gellid ymestyn y fformat ar gyfer hysbysebu, tebyg i ymgysylltu lleol h.y. sioe ffordd pan fydd cyfyngiadau COVID yn caniatáu hynny. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod rhanbarthau eraill wedi buddsoddi £6,000 mewn hysbysfyrddau yn lleol ac mai ychydig o ymateb a gafwyd o'r buddsoddiad hwnnw. Mae Swyddog Marchnata yn ei swydd erbyn hyn ac wedi edrych yn agos ble i fuddsoddi arian i gael yr ymateb gorau, a drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol mae hynny. Hysbysodd Aelodau fod recriwtio ar gyfer eleni wedi dyblu a'u bod uwchben y targed ar gyfer eu nodau recriwtio.<br><br>Gyda demograffeg Blaenau Gwent, teimlai'r Aelod fod pobl yn hoffi cysylltiad wyneb i wyneb i ofyn cwestiynau anodd. Teimlai'r Rheolwr Gwasanaeth eu bod hefyd yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd eu mynychu.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol eu bod wedi symud i lwyfan mwy digidol ar gyfer hysbysebu gyda pheth llwyddiant. Roeddent wedi methu cynnal rhai digwyddiadau cyhoeddus tebyg i sioeau ffordd mewn archfarchnadoedd oherwydd cyfyngiadau pandemig a phan fydd cyfyngiadau COVID yn llacio, gallent ystyried ailedrych ar hyn yn lleol gan y gallai weithio'n well i Flaenau Gwent na rhannau eraill o Went.<br><br>Dywedodd Aelod ei bod yn dda nodi fod recriwtio wedi dyblu eleni a holodd os oes unrhyw ddata ar farchnata ar gael i Aelodau gymharu pa fath o hysbysebu oedd mwyaf effeithol. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth fod |

| | |
|---|---|
| | gwybodaeth ar gael ac y byddai'n ei anfon i Aelodau er gwybodaeth.<br><br>Ychwanegodd y Cadeirydd y gallent o bosibl edrych ar hysbysebu yn yr hybiau ardaloedd y mae pobl yn ymweld yn rheolaidd â nhw.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef derbyn yr wybodaeth fel y'i hadroddwyd. |

| Item ID | 5613 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 20 Ionawr 2022 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau am rai newidiadau i'r Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfarfod nesaf yn Ionawr 2022 i'r Pwyllgor ei ystyried.<br><br>Caiff adroddiad Model y Dyfodol o Dechnoleg Gynorthwyol/Darpariaeth Teleofal ei symud i'r cylch nesaf, caiff y Strategaeth Gostyngiad Diogel yn Nifer y Plant sy'n derbyn Cymorth a'r adroddiad ar y Cyllid Gofal Integredig eu symud i'r cyfarfod craffu ym mis Mawrth ac y caiff Cynigion ar gyfer Darparu Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2022.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef diwygio'r Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod ar 20 Ionawr 2022 a chyflwyno'r adroddiadau dilynol:<br><br>• Cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol ar gyfer Gwasanaethau Plant<br>• Adroddiad Cynnydd Rhianta Corfforaethol<br>• Diweddariad Chwarter a 1 2 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Tâl a Chymhellion Gweithiwr Cymdeithasol |